

CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned nos Fawrth y 6ed o Chwefror 2018 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Bro Cernyw, Llangernyw.

1. **Croeso ac Ymddiheuriadau:**

Yn Bresennol	
Elen H Edwards	EHE
Cyng. Sir Garffild Lloyd Lewis	GLL
Diane Roberts	DR
Ann Vaughan	AV
Einir Williams (Is-Gadeirydd a Chadeirydd y cyfarfod yma)	EW
Emlyn Williams	EMW
Ymddiheuriadau	
Elwen Owen (Clerc)	EO
Clwyd Roberts	CR
Gwyn Williams	GW
Yn absennol	
Gerallt Evans	GE
Gwydion Jones	GJ
Gwynfor Davies	GD

Cytunodd Elen i gofnodi'r cyfarfod yn absenoldeb Clerc.

2. **DATGAN CYSYLLTIAD – OS OES UNRHYW EITEM AR YR AGENDA YN GYSYLLTIEDIG AG AELOD O'R CYNGOR DYLAID DDATGUDDIO DIDDORDEB**

- 2.1 AV - Anfoneb i mewn am gostau o dan eitem 11.
- 2.2 Av - Datganiad diddordeb yng nghais cynllunio Bryn Gwylan.
- 2.3 GLL - Cais Cynllunio - 0/44654 Cae Ffynnon Pandy Tudur (Dylid fod yn Cefn Ffynnon)
- 2.4 EW – Cais Cynllunio - 0/44654 Cae Ffynnon Pandy Tudur (Dylid fod yn Cefn Ffynnon)

3 **Cofnodion Cyfarfod 9^{fed} o Ionawr 2018**

Eitem 9.1 –

– “papurau cyfreithiol y toiledau wedi cyrraedd ac yn cadarnhau mai Llangernyw yw perchennog yr adeilad erbyn hyn. Biliau cyfreithiol angen eu talu (Steve Teale i dalu costau).”

Dylai ddarllen

“papurau cyfreithiol y toiledau wedi cyrraedd ac yn cadarnhau mai **Menter Bro Cernyw Cyf** yw perchennog yr adeilad erbyn hyn. Biliau cyfreithiol angen eu talu (Steve Teale i dalu costau).”

Yn dilyn y newid uchod nodwyd cofnodion 9^{fed} o Ionawr 2018. Fe'u cynigwyd yn gofnod cywir gan DR, gydag EMW yn eilio.

4 **Materion yn codi o'r cofnodion (er gwybodaeth)**

- 4.1 **Eitem 4.1** - Iwan Ellis i fod i ddod i fonitro traffig dydd Mawrth 06/02/2018 ond fe ohiriodd oherwydd yr eira. Mynd i ail drefnu a gadael i Cyng. GLL wybod pryd.
- 4.2 **Eitem 4.2.3** –EW i gysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am gyngor - am yr hawl i ddefnyddio asiantaeth, ac am yr hawl i dalu mwy na'r gyfradd statudol. Cario ymlaen i fis nesaf.
- 4.3 **Eitem 4.2.4** – Swydd y Clerc nawr ar wefan y Cyngor Sir – EHE wedi trefnu.
- 4.4 **Eitem 8.1** - Biliau - EW wedi eu talu a'u gyrru ymlaen.
- 4.5 **Eitem 9.2** - Ceisiadau Cynllunio - Cysylltodd DR a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy(CBSC) ynglŷn â chais cynllunio Wennallt a chadarnhaodd Siôn Roberts o CBSC ein bod yn cael estyniad i ddyddiad nodi sylwadau y cais hwnnw ynghyd a'r isod:
 - 4.5.1 Cais 0/44730 , Glan Yr Afon Llangernyw Abergele
 - 4.5.2 Cais 0/44726 , Pen Isaf Plas Matw Llangernyw Conwy
 - 4.5.3 Cais 0/44654; Cae Ffynnon Pandy Tudur Conwy

Erbyn edrych ar y Porydd Cynllunio mae sawl cais arall ar y Porydd ond yn anffodus does dim gwaith papur / ceisiadau wedi eu derbyn gennym o'r Sir ar eu cyfer sef:

- 4.5.4 Cais 0/44716 Wennallt Pentre Bron Yr Haul Trofarth Llangernyw (gwaith papur wedi ei dderbyn ond ddim ar yr agenda felly i'w drafod yn y cyfarfod nesaf)
- 4.5.5 Cais 0/44832 Land at Pen Y Bryn To the North West of Llangernyw
- 4.5.6 Cais 0/44823 Capel Seilo Gwytherin Llangernyw
- 4.5.7 Cais 0/44746 Bryn Gwylan Turnpike Ucha to Nant Mawr Llangernyw

Angen cynnwys yr uchod ar agenda mis Mawrth 2018 i drafod a hysbysu CBSC nad ydym wedi derbyn unrhyw ohebiaeth a gofyn am estyniad er mwyn gyrru sylwadau. DR am wneud hyn.

- 4.6 **Eitem 9.3** - Helen Jackson wedi bod mewn cyswllt. Mae swyddog newydd ar gychwyn gyda'r tîm mewn ychydig wythnosau. Unwaith y bydd wedi setlo yna am gysylltu eto i drefnu i gael dod draw i gyflwyno i'r Cyngor Cymuned. Mae ganddynt arian ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal.
- 4.7 **Eitem 9.4** - Ffyrdd yn yr ardal angen eu glanhau ar ôl y tywydd garw yn ddiweddar. EMW am wneud.
- 4.8 **Eitem 9.11** – “Angen hefyd i'r Cyngor gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol. Penderfynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf”. Angen cario'r weithred yma i'r cyfarfod nesaf ar gyfer Cronfa Bro Cernyw.

5 Materion Ffyrdd ac Amgylchedd:

Dim

6 Ceisiadau Cynllunio

Trafodwyd y canlynol:

- 6.1 Cais 0/44730 , Glan Yr Afon Llangernyw Abergele LL22 8PF – Cymeradwyo
- 6.2 Cais 0/44726 , Pen Isaf Plas Matw Llangernyw Conwy LL22 8RN – Cymeradwyo
- 6.3 Cais 0/44654 Cae Ffynnon Pandy Tudur Conwy LL22 - wedi ei dynnu yn ol.gan Mr & Mrs Thomas. Wedi ei weld ond dim sylwad i'w wneud. (Dylid fod yn Cefn Ffynnon)

<http://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Planning-Applications/Planning-Explorer.aspx>

7 Cyfeiriad e-bost newydd y Cyngor Cymuned - cyngorcymunedllangernyw@gmail.com

- 7.1 Hwn fydd cyfeiriad e-bost ar gyfer holl ohebiaeth y Cyngor Cymuned o hyn ymlaen.
- 7.2 Elwen Owen wedi hysbysu ei chysylltiadau o'r cyfeiriad newydd.
- 7.3 Angen dweud wrth Arfon Parry bod manylion EO wedi newid ar y safle we. EHE am wneud.
- 7.4 Bydd dyletswyddau a phwy fydd yn gyfrifol am ofalu a chwynnu'r cyfiri e-bost yn cael ei drafod o dan eitem 9 o'r agenda.

8 Cyflog y Clerc

Cyflog y Cyn Clerc

- 8.1 Fel y nodwyd yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf o dan eitem 6.1 mae angen talu ôl-daliad o £534.17 i EO. Mae EW am ei osod allan ar daenlen ac wedyn gofyn i aelod arall o'r Cyngor Cymuned ei wirio. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud mi fyddwn yn talu gyda chopi o'r daenlen i'w yrru ymlaen hefyd.
- 8.2 Angen talu'r EO am weinyddu Cronfa Bro Cernyw. I'w gynnwys ar agenda mis Mawrth.

Cyflog ar gyfer hysbysebu am Clerc newydd

- 8.3 Angen gwybod os ydym yn Gystadleuol gyda chyflogau a delir i Glercod Cynghorau Cymuned leol eraill. EW am wneud ymholiadau os yn bosib.
- 8.4 Crybwyllwyd codi'r cyflog i'r pwynt nesa. Cynigwyd hefyd yr opsiwn o roi 6 mis o gyfnod prawf a chodi'r cyflog ar ôl cyfnod prawf llwyddiannus.

9 Dyrannu swyddogaethau'r Clerc rhwng aelodau'r Cyngor hyd nes y cyflogir Clerc newydd.

Trafodwyd yr holl swyddogaethau sydd wedi eu rhestru yn nisgrifiad swydd y Clerc a dyrannwyd y swyddogaethau fel y gwelir yn Atodiad A (ynghlwm).

10 Gohebiaeth:

- 10.1 Cyfarfod Strategaeth Datblygu Hiraethog - Mae cyfarfod yma ym Mro Cernyw nos Fawrth 13^{eg} o Chwefror. Angen gyrru'r e-bost yn gwahodd ynghyd a chefnidir ymlaen i holl Gyngorwyr. EW am wneud.
- 10.2 Cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy 2018

- Cynigwyd gan DR i roi run fath a llynedd. Meddwl mai £30.00. Eiliwyd gan AV.
 Angen checio faint a roddwyd yn flaenorol a thalu Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy
- 10.3 Mynwentydd - wedi derbyn dau bris am wneud y gwaith.
 Gofynnwyd am dri amcan bris ond derbyniwyd dau amcan bris. Penderfynwyd derbyn dyfynbris Kevin Roberts am wneud y gwaith. EMW i gysylltu â Kevin Roberts i'w hysbysu ei fod yn llwyddiannus, ag hysbysu'r ymgeisydd aflwyddiannus a diolch iddynt am eu hamcan brisiau.
- 10.4 Ymgynghoriad diwygiedig ar Orchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus - Rheoli Cŵn
 DR wedi cytuno edrych ar yr ymgynghoriad. Dyddiad cau 23/02/2018. Am yrru ei meddyliau ag ymateb i bawb gael eu gweld cyn ei gyflwyno.

11 Biliau:

Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol –

- 11.1 Ann Bryn Gwylan - Enid & Ann wedi plannu yn y tybiau - £32.00 - l'w dalu
 11.2 Winner Rosettes - £122.00 Dwy gwpan– l'w dalu.
 Angen eu pasio ymlaen i Gwynfor Davies i'w talu.

12 Materion lleol:

- 12.1 Pasiwyd y Cwpanau ymlaen. Un i Sioe Arddio Llangernyw gyda'r llall er cof am Tecwyn Evans ar gyfer Sioe Gwytherin. Diolchwyd i EMW am drefnu.
- 12.2 Cafwyd adborth o gyfarfod Un Llais Cymru a fynychodd EMW yn Llansannan yn ddiweddar.
 Soniwyd am yr isod:
- Panel Cydnabyddiaeth Ariannol - Fe ddywedwyd ei fod yn rheol rŵan i bob Cynghorydd Cymuned dderbyn £150.00 y flwyddyn. Dywedodd DR ei fod yn gynnig ond nad oes rhaid i'r Cyngor Cymuned ei fabwysiadu. Y Cyngor gan Un Llais oedd y dylai fod £150.00 ar gyfer pob Cynghorydd yn y Precept. Gofynnwyd a ydym wedi derbyn y wybodaeth yma gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol????
 - Cynllun Iaith – Angen edrych ar y Cynllun. Pwynt Gweithredu
 - Crybwyllwyd hefyd bod gennym ni Swyddog Data oherwydd y newidiadau sydd ar y gweill gyda rheoliadau'r "General Data Protection Regulation" (GDPR.) Angen dweud wrth Un Llais Cymru bod y Cynghorau Cymuned angen hyfforddiant am y mater yma. EW am wneud hyn.
- 12.3 Er mawr siom doedd neb yn bresennol o Heddlu Gogledd Cymru (fel y disgwyliwyd) i roddi cyflwyniad
 Derbyniwyd adborth o Gyfarfod Cynghorau Tref a Chymuned a chynhaliwyd yn Bodlondeb, Conwy nos Fercher 31ain o Ionawr 2018 a diolchwyd i EMW a GW am fynychu.
- Cyllideb y Cyngor ag y toriadau llyfn a wynebir.
 - Parcio yn Abergele a gymerodd rhan fwyaf o amser y cyfarfod. Y neges oedd petai cymuned yn cymryd maes parcio drosodd ac yn doddi tal am barcio yna byddai rhaid talu trethi busnes arno. Yn aml iawn roedd yr incwm yn llai na chost y dreth.
- 12.4 Clawdd Tŷ Hendre house yng Ngwytherin angen sylw. DR am gofnodi'r mater hefo CBSC.
- 12.5 Hel sbwriel - Bu ambell aelod o'r Cyngor Cymuned wrthi yn hel sbwriel yn yr ardal yn ddiweddar.
 Angen trefnu i gynnal diwrnod arall o hel sbwriel gyda chefnogaeth Cadwch Gymru'n Daclus.
- 12.6 Cafwyd cwyn fod y Loriau Ail Gylchu yn dreifio o gwmpas heb gau ochrau'r loriau. Nodwyd fod y gwyn wedi cael ei chofnodi hefo'r Sir a'r cyngor oedd, os fyddwn yn gweld hyn yn digwydd bod eisiau cofnodi rhif cofrestru'r lori ai reportio i'r Sir. Nodwyd hefyd y byddai'r gweithwyr yn cael "Tool Box Talks" o fewn yr wythnosau nesaf ac fe fyddai'r swyddogion yn pwysleisio'r mater bryd hynny.
- 12.7 Ysmygu yn yr Arhosfa'n Bws.
- 12.8 Ci Labrador yn rhydd yn y Llan yn aml. Angen cadw llygad arno i ddod o hyd i'r perchennog neu cysylltu ar Warden Cŵn.
- 12.9 Cafwyd cwyn oherwydd cerbydau llydan fod ceir yn gwyro mewn i ddreif Bronllan ac yn bwyta mewn i'r dreif.
- 12.10 Mae blodau gwyn yn hongian drosodd wrth Tŷ'r Gof ac yn mynd ar draws y palmant. DR am adrodd i'r Cyngor.
- 12.11 Diolchwyd i Cyng. GLLL am ei brydlondeb yn ymateb i'r digwyddiad trist pan aeth y Ficerdy ar dan. Roedd y wybodaeth a'r diweddariadau cyson a gafwyd ganddo yn gysur mawr i deuluoedd y preswylwyr. Diolchwyd iddo hefyd am drefnu a hwyluso cyfarfod agored yng Nghanolfan Bro Cernyw er mwyn diweddarau teuluoedd y preswylwyr a staff y Ficerdy.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:
Nos Fawrth y 6ed o Fawrth Llangernyw.

Elen Haf Edwards
 Cofnodwyd 6^{ed} o Chwefror 2018

Adran a thudalen cofnodion	Crynodeb o Gamau Gweithredu	Gweithred Ar Gyfer
Adran 4.2 (tudalen 1)	Cysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am gyngor - am yr hawl i ddefnyddio asiantaeth, ac am yr hawl i dalu mwy na'r gyfradd statudol.	Einir Williams
Adran 4.5 (tudalen 2)	Hysbysu CBSC nad ydym wedi derbyn unrhyw ohebiaeth am sawl Cais Cynllunio a gofyn am estyniad er mwyn gyrru sylwadau.	Diane Roberts
Adran 4.7 (tudalen 2)	Ffyrdd yn yr ardal angen eu glanhau ar ôl y tywydd garw yn ddiweddar.	Emlyn Williams
Adran 4.8 (tudalen 2)	<i>"Angen hefyd i'r Cyngor gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol. Penderfynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf"</i> . Angen cario'r weithred yma i'r cyfarfod nesaf ar gyfer Cronfa Bro Cernyw.	Oll Einir Williams
Adran 7.3 (tudalen 2)	Angen dweud wrth Arfon Parry bod manylion EO wedi newid ar y safle we.	Elen Haf Edwards
Adran 8.3 (tudalen 2)	Angen gwybod os ydym yn Gystadleuol gyda chyflogau a delir i Glercod Cyngorau Cymuned leol eraill.	Einir Williams
Adran 10.1 (tudalen 2)	Cyfarfod Strategaeth Datblygu Hiraethog - Mae cyfarfod yma ym Mro Cernyw nos Fawrth 13 ^{eg} o Chwefror. Angen gyrru'r e-bost yn gwahodd ynghyd a chefnidir ymlaen i holl Gynghorwyr.	Einir Williams
Adran 10.2 (tudalen 2)	Cais ariannol gan Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy 2018 Angen checio faint a roddwyd yn flaenorol a thalu Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy	Gwynfor Davies
Adran 10.3 (tudalen 3)	Cysylltu â Kevin Roberts i'w hysbysu ei fod yn llwyddiannus, ag hysbysu'r ymgeisydd aflwyddiannus a diolch iddynt am eu hamcan brisiau.	Emlyn Williams
Adran 10.4 (tudalen 3)	Ymgynghoriad diwygiedig ar Orchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus - Rheoli Cŵn DR wedi cytuno edrych ar yr ymgynghoriad. Dyddiad cau 23/02/2018. Am yrru ei meddyliau ag yr ymateb i bawb gael eu gweld cyn ei gyflwyno.	Diane Roberts
Adran 12.2 (tudalen 3)	Cynllun Iaith – Angen edrych ar y Cynllun.	Oll
Adran 12.2 (tudalen 3)	Crybwyllwyd hefyd bod gennym ni Swyddog Data oherwydd y newidiadau sydd ar y gweill gyda rheoliadau'r "General Data Protection Regulation" (GDPR.) Angen dweud wrth Un Llais Cymru bod y Cyngorau Cymuned angen hyfforddiant am y mater yma.	Einir Williams
Adran 12.10 (tudalen 4)	Mae blodau gwyn yn hongian drosodd wrth Tŷ'r Gof ac yn mynd ar draws y palmant.	Diane Roberts
	Eitemau ar gyfer Agenda'r Cyfarfod nesaf:	Einir Williams
Adran 4.5 (tudalen 2)	Angen cynnwys y ceisiadau cynllunio ar agenda mis Mawrth 2018 i'w trafod.	
Adran 4.8 (tudalen 2)	<i>"Angen hefyd i'r Cyngor gymeradwyo yn ffurfiol y penderfyniad i roi grantiau i gymdeithasau a sefydliadau lleol. Penderfynwyd gwneud hyn yn y cyfarfod nesaf"</i> .	
Adran 8.2 (tudalen 3)	Angen talu'r EO am weinyddu Cronfa Bro Cernyw.	
Adran 12.2 (tudalen 3)	Cynllun Iaith – Angen edrych ar y Cynllun.	

Fel a gytnwyd yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llangernyw ar y 9fed o Ionawr 2018, yn ystod cyfarfod y Cyngor ar y 6ed o Chwefror (eitem Agenda 9.) fe ddyranwyd y swyddogaethau rhwng pob cynghorydd. Mi fydd y drefn yma yn parhau hyd nes byddwn wedi cyflogi rhywun i swydd y Clerc.

Swyddogaeth	Cynghorydd fydd yng ngofal y swyddogaeth	Sylwadau
Cymryd gofal o gyfrif e-bost y Cyngor	Elen Hâf Edwards	cyngorcymunedllangernyw@gmail.com
Derbyn gohebiaeth a biliau, a ffeilio'r wybodaeth hynny.	Y Cadeirydd: Gwyn Williams	Angen sicrhau bod pob gohebiaeth yn cael ei flaenyrru fel ei fod yn cael ei ychwanegu i'r agenda (os nad ydyw wedi ei e-bostio i gyfeiriad e-bost y Cyngor yn barod)
Trefnu i osod copi o'r Agenda ar hysbysfyrdau'r tair ward	Y Cadeirydd: Gwyn Williams	
Prif gyswllt Ceisiadau Cynllunio	Clwyd Roberts	Sicrhau bod pob gohebiaeth yn cael ei hysbysu ar gyfer ei roi ar yr agenda. Gofyn am estyniad amser gan yr Adran Gynllunio os oes angen mwy o amser i'r cyngor ymateb.
Bwcio ystafell ar gyfer y cyfarfodydd y Cyngor	Gerallt Evans	Lleoliad nesa: Pandy Tudur, yna Gwytherin, yna Llangernyw – yn eu trefn. Wil Evans Coetmor yw gofalwr Ganolfan Pandy Tudur, Enid Williams yw Gofalwr Canolfan Gwytherin (860 264) a Gwenda Vaughan yw gofalwr Canolfan Bro Cernyw (860 379)
Gosod Agenda misol. Rhannu'r agenda ar e-bost i'r cynghorwyr ynghyd a'r munudau o'r cyfarfod diwethaf. Printio copïau ar gyfer y cyfarfod.	Einir Williams	Cydlynu gydag Elen, Clwyd a Gwyn i gasglu gwybodaeth i'r agenda.
Ymateb i unrhyw ohebiaeth ar ran y Cyngor.	Gwydion Jones	
Talu biliau a'u gyrru. Gwneud cais TAW yn ô lar ran y Cyngor	Gwynfor Davies	
Talu sieciau mewn i'r banc	Emlyn Williams	
Adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir ar unrhyw faterion sydd yn codi gan Gynghorwyr yn ystod y cyfarfod Cyngor Cymuned.	Diane Roberts	
Mynwentydd: <ul style="list-style-type: none"> Prif bwynt Cyswllt Cofrestr Claddu Tâl claddu gan ymgymerywyr 	Pwyllgor Mynwentydd – Emlyn Williams (Prif Bwynt Cyswllt) Gerallt Evans Ann Vaughan Clwyd Roberts	
Paratoi datganiad chwarterol i'r Cyngor a'i incwm a gwariant	PAWB (Diane i arwain)	
Cronfa Bro Cernyw	PAWB	
Cofnodion: <ul style="list-style-type: none"> Cymryd cofnodion yn ystod y cyfarfod Teipio'r cofnodion i fyny Trefnu iddyn nhw gael eu cyfieithu Trefnu iddyn nhw gael eu rhoi ar y wefan unwaith maen nhw wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Cymuned. 	ROTA: Elen Ann Garffild Einir (Bydd angen mwy o wirfoddolwyr)	